

ECAD7004 - Aseiniad

Dylunio, cynnal a gwerthuso'n feirniadol brosiect ymchwil agos at ymarfer (astudiaeth achos) gan ganolbwyntio ar fodel yr athro trawsnewidiol wrth ddatblygu ymarfer sy'n cael effaith gadarnhaol ar y dysgwr.

Nod, ffocws a phwrrpas yr ymchwil

Nod yr aseiniad yma yw i gynnal ymchwil agos at ymarfer gan ganolbwyntio ar fodel yr athro trawsnewidiol. Fel dywed yng ngwaith Slavich & Zimbardo (2012) mae'r 'athro trawsnewidiol' yn derm i ddisgrifio ymarferydd sy'n ymrwymo i gynnal newidiadau cadarnhaol cyson yn ei ymarfer er lles disgyblion (t.569). Atega Slade *et al.*, (2018) bod ymgymryd mewn ymarfer adfyfyriol tebyg, yn hanfodol i ddatblygu fel ymarferydd (t.1-2) fel rhan o ganllawiau'r *Safonau Proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth* (Llywodraeth Cymru, 2019). Bydd yr aseiniad yma'n defnyddio canfyddiadau ymchwil i lywio argymhellion i ysgogi datblygiad yn ymarfer y dyfodol.

I amlinellu pwrrpas y prosiect, bydd yr ymchwil yma'n dadansoddi effaith cyflwyno strategaeth Meini Prawf Llwyddiant (MPLI) mwy systematig ar ddysgwyr Blwyddyn 5 a 6. Penderfynaf roi ffocws ar yr agwedd yma o ymarfer, gan ei bod wedi chwarae rôl hanfodol wrth Asesu ar gyfer Dysgu (AagD) yn fy ymarfer personol PAP 1. Ar y profiad yma, datblygais strategaeth MPLI mwy systematig ar gyfer disgyblion Blwyddyn 1 – gan fod nifer o ddysgwyr yn cael problemau yn deall gofynion nod y wers, o ganlyniad i anawsterau gyda'i sgiliau darllen a deall yr iaith Gymraeg. Trwy ddatblygu strategaeth MPLI newydd, lle torrir nod y wers (e.e. 'didoli teganau hen a newydd') i gamau mwy hydrin a syml (e.e. 'torrwch y lluniau; trefnwch y lluniau i gategorïau hen a newydd) – sicrhodd bod disgyblion yn fwy eglur o'r camau penodol a oedd angen iddynt ddiwallu i gyrraedd gofynion nod y wers. Diben yr

ymchwil yma yw i ddarganfod argymhellion newydd i wella ymarfer – trwy ymchwilio sut mae'r strategaeth MPLI yma'n gweithio gyda grŵp o ddysgwyr Blwyddyn 5 a 6.

Cwestiwn ymchwil

Beth yw canfyddiadau dysgwyr Blwyddyn 5 a 6 o ddefnyddio strategaeth Meini Prawf Llwyddiant mwy systematig yn y dosbarth?

Cyd-destun yr ysgol

I roi cyd-destun i'r sefydliad dan sylw, mae'n ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Ne Cymru. Yn ôl adroddiad diweddaraf Estyn (2016) roedd gan yr ysgol, 306 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed. Roedd 16% o ddisgyblion gyda ADY, sydd yn llai na'r canran cenedlaethol o 25%. Dim ond rhai disgyblion sy'n dod o gartrefi sy'n siarad Cymraeg (t.1), sy'n cael effaith ar safonau darllen Cymraeg yn yr ysgol (t.4).

Bydd yr ymchwil yn cymryd lle mewn dosbarth cymysg Blwyddyn 5/6, lle mae 28 disgybl yn cofrestru. Mae tua 40% o'r disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol (llawer yn uwch na'r canran cenedlaethol, a chyfartaledd yr ysgol) sydd gydag effaith ar sgiliau Cymraeg cyfartalog y dosbarth dan sylw.

Trosolwg o lenyddiaeth berthnasol

Fel dywed yn William (2011) am nifer o flynyddoedd, cafodd asesu mewn addysg ond ei ddefnyddio ar ffurf grynodol. Mae asesu crynodol yn ddull o asesu sy'n ceisio datgelu faint mae disgyblion yn deall wedi terfyn cyfnod penodol o'i addysg (t.3). Rôl yr athro oedd i addysgu testun, a rôl y dysgwyr oedd i geisio adolygu a chofio'r testun er mwyn ymateb i brawf crynodol (ar ddiwedd uned o waith,

neu gyfnod penodol o'i haddysg). Fel atgyfnertha Joughin (2010) mae'r gred bod asesu crynodol yn arf gwbl hanfodol i yrru dysgu myfyrwyr, yn un hirsefydlog yn y system addysg (t.335). Ysgrifenna Melancthon (a ddyfynnwyd yn Madaus *et al.*, 2009):

[that] no academical exercise can be more useful than that of examination. It whets the desire for learning; it enhances the solicitude of study while it animates the attention of whatever is taught (t.140).

Mae asesu crynodol yn ffordd o ardystio yn union beth mae dysgwyr wedi eu dysgu – a'i graddio er mwyn eu symud ymlaen yn ei thaith dysgu.

Ond er y perthynas hirsefydlog yma rhwng y daith dysgu draddodiadol, ac asesu crynodol – dadleuodd Race (1996) bod angen diwygio'r system addysg, a'r ffordd o asesu disgyblion. Dadleuodd bod angen cynnig adborth parhaus i ddysgwyr, ac ymateb i'w diffygion, er mwyn gwthio'i chymhelliant a chyrhaeddiad ymhellach (t.1).

Ceir shiftt mewn meddylfryd felly, o asesu crynodol ar ddiwedd uned o waith penodol – i Asesu ar gyfer Dysgu. Diffinnir yn Black *et al.*, (2004) megis y broses o gasglu tystiolaeth o ddysgu disgyblion er mwyn ei ddehongli. Defnyddir y dystiolaeth yma o gyrhaeddiad a deallusrwydd disgyblion, er mwyn ennyn lle mae unigolion yn sgil eu siwrne dysgu, er mwyn llywio a chynllunio'r camau dysgu nesaf. Trwy AagD, mae'r ymarferydd yn weithredol i'r hyn y gwelir ar lawr y dosbarth, ac yn mireinio'i dulliau o addysgu i siwtio anghenion eu dysgwyr unigol (t.10).

Ond er y pwyslais cyfredol yma ar bwysigrwydd AagD, atgoffa academyddion megis Kibble (2017) bod yna dal le hanfodol i ddefnydd strategaethau asesu crynodol o fewn y system addysg gyfoes – fel enghraifft amlwg, mae asesu crynodol dal yn rhan ganolog i systemau graddio disgyblion, megis profion TGAU – sy'n rhoi gradd benodol a therfynol i ddisgyblion ar ddiwedd y cyfnod yma o'i haddysg. Bwriad strategaethau AagD effeithiol yw i lywio'r paratodau ar gyfer asesu cyffelyb, trwy hysbysu hyfforddwyr o ddeallusrwydd ei disgyblion – er mwyn iddynt fireinio strategaethau addysgu

i wthio cyrhaeddiad a chyflawniad yr unigolion yma (t.110). Erbyn heddiw, mae sefydliadau megis Estyn (2018) yn nodi 'golygu dilyn egwyddorion AagD' fel rhan o'r 12 Egwyddorion Addysgegol a Dysgu da – sy'n rhoi'r canllawiau i athrawon o ymarfer da. Caiff y rhain ei gynllunio gan ddilyn syniadau'r athro Donaldson (2015) a lywiodd y Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2024).

Fel dywed Wiliam (2011) mae ymarfer AagD safonol yn cynnwys y defnydd o nifer o strategaeth wahanol sy'n rhoi deallusrwydd cyfannol o allu/dysgu dysgwyr (t.3). Fel enghraifft benodol o strategaeth AagD, dywed Crichton & McDavid (2015) bod cynnig MPLI i ddysgwyr yn helpu iddynt ddeall y gofynion, ac yn union beth sydd angen arnynt i lwyddo. Mae rhoi siâp i le mae dysgu yn mynd, yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o bryd maent wedi cyrraedd y nod dysgu (t.190). Casgla Ahmed (2018) bod cynnig MPLI yn ysgogi disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol – trwy rymuso ymarfer critigol ac adfyfyriol o'i waith nhw ei hunain (t.20) sy'n helpu i wthio cyrhaeddiad.

Serch hyn, ceir ddadl gritigol yng ngwaith Willis *et al.*, (2023) sy'n dadlau bod defnydd strategaethau MPLI yn medru cyflwyno rhwystrau ychwanegol i ddysgu disgyblion penodol. Mae defnydd o iaith estynedig neu gyfarwyddiadau amwys yn gallu tynnu ar ddefnyddioldeb MPLI i ddisgyblion sydd gydag anawsterau yn darllen neu brosesu testun (t.3). Yn enwedig mewn cyd-destun yr ymchwil yma - ysgol cyfrwng Cymraeg, lle bod disgyblion yn aml yn dod o gartrefi di-gymraeg (Estyn, 2016). Dywed Lewis (2003) bod problemau amlwg yn sgil safonau darllen a deall y Gymraeg, yn nisgyblion o gartrefi di-gymraeg. Gellir tybio felly bod problemau posib yn gallu codi wrth i ddisgyblion ceisio deall gofynion MPLI mwy cymhleth (fel atgyfnerthiad i ddadl Willis *et al.*, 2023).

Bydd yr ymchwil yma'n defnyddio canfyddiadau'r llenyddiaeth i geisio datblygu ymarfer AagD, trwy gyflwyno strategaeth MPLI newydd i ddosbarth Blwyddyn 5 a 6. Bydd y strategaeth yma yn torri'r gofynion i gamau strwythuredig, er mwyn i ddisgyblion deall yr hyn sydd angen arnynt i lwyddo

(atgyfnerthiad i Crichton & McDaid, 2015). Trwy ddefnydd camau penodol ac iaith syml – gobeithir helpu disgyblion i ddiwallu'r gofynion, a chyrraedd nod y wers, trwy sicrhau ei dealltwriaeth o'r hyn sydd angen iddynt eu gwneud i lwyddo – er rhai o'r anawsterau yn sgil sgiliau iaith.

Trafodaeth y dyluniad ymchwil: Astudiaeth Achos

Fel diffinnir yn Wholey *et al.*, (1994) mae astudiaeth achos yn 'dull o ddatblygu dealltwriaeth gyflawn o broses, rhaglen, digwyddiad neu weithgaredd' (t.163). Mae astudiaeth achos yn rhoi cyd-destun real i ymchwilwyr i ymateb i gwestiwn ymchwil nodedig. Fel amlinella'r llenyddiaeth mae Thomas (2021) yn ysgrifennu bod dau ochr i astudiaeth achos: (1) y pwnc neu'r cyfranogwyr; (2) y ffrâm/gwrthrych dadansoddol – sy'n cylchynu'r cwestiwn neu ffocws ymchwil penodol.

Yn yr astudiaeth achos yma, y dysgwyr Blwyddyn 5 a 6, o fewn cyd-destun dosbarth yn *Ysgol A*, yw cyfranogwyr yr ymchwil. Dyma yw'r unigolion fydd yn cael ei ffocysu arno yn ystod y cyfnod arsylwi.

Mae'r ffrâm ddadansoddol felly yn ffocysu ar ymateb i'r cwestiwn ymchwil – 'Beth yw canfyddiadau dysgwyr Blwyddyn 5 a 6 o ddefnyddio strategaeth Meini Prawf Llwyddiant mwy systematig yn y dosbarth?'. Bydd yr astudiaeth achos yn asesu sut mae cyflwyno'r MPLI yn annog cyflawniad academaidd y dysgwyr yma (y cyfranogwyr) o fewn cyd-destun Ysgol A. Fel ymchwilydd, mae'n hanfodol i gadw'r cwestiwn ymchwil mewn golwg wrth ystyried ac arwain ffrâm ddadansoddol yr ymchwil – dylid cydlynu ymchwil academaidd a theorïau addysgegol perthnasol i ddadansoddi ymateb disgyblion i'r ymyrraeth sbesifig yma.

Wrth ddylunio'r ymchwil, penderfynwyd ymgymryd mewn astudiaeth achos arfarnol. Fel dywed Hamilton (2011) nod astudiaeth achos arfarnol yw i ddarganfod pa mor dda y mae rhywbeth yn gweithio, neu i asesu os yw rhywbeth wedi gweithio yn ôl y disgwyl. Mae'r ymchwil yma yn ceisio profi theori bod rhannu MPLI i gamau mwy systematig a hydrin yn helpu dealltwriaeth a chyrhaeddiad dysgwyr – er mwyn cynnig argymhellion i wella ymarfer defnyddio strategaethau MPLI

yn y dyfodol. Trwy ffocysu ar y gwrthrych dadansoddol – effaith y MPLI - mae’r ymchwilydd gyda lens penodol i ffocysu drwyddo wrth arsylwi’r cyfranogwyr. Fel awgryma Diefenbach (2009) un o’r dadleuon critigol ar ddefnydd astudiaethau achos, yw’r rhyddhad sydd gan yr ymchwilydd o fewn y broses arsylwi. Er bod astudiaeth achos yn cynnig darlun cyfoethog i ymchwilio – trwy gynnig darlun manwl a gwybodaeth yn dod o sawl ongl; mae gormod o ryddhad o fewn arsylwadau ymchwil yn medru gwneud y broses o ysgrifennu canfyddiadau yn debyg i adrodd stori yn hytrach nag cynnig tystiolaeth wyddonol (t.875). I fynd i’r afael ar hyn, mae cadw’r cwestiwn ymchwil mewn golwg wrth arsylwi yn helpu i roi ymylon i’r astudiaeth. Mae hyn yn ffocysu’r arsylwadau ar yr hyn sy’n bwysig.

Wrth ystyried y cyfranogwyr rhaid hefyd cadw mewn golwg bod angen sicrhau trawstoriad teg o’r dosbarth o fewn yr astudiaeth achos. Fel dywed Schutt (2006) dylai astudiaeth achos llwyddiannus ymdrin â chyfranogwyr ymchwil megis ‘uned gymdeithasol integredig y mae’n rhaid ei hastudio’n gyfannol ac yn ei hynodrwydd’ (t.293).

Bydd angen sicrhau bod galluedd cymysg yn cael ei rhoi at ei gilydd i gynnig trawstoriad o bob math o ddysgwr. Fel rhwystrad posib i’r ymchwil, mae tua 40% o ddisgyblion y dosbarth dan sylw, gyda ADY – sydd llawer yn uwch na’r canran cenedlaethol. Gellir tybio efallai nad yw’r canlyniadau yn drawstoriad teg o ddosbarthiadau cyffredinol felly – ac mae’n bwysig i sicrhau fy mod ddim yn cyffredinoli yn ormodol o fewn y casgliadau.

Bod yn foesebol

Fel hyfforddwr cofrestredig, rhaid datgan y byddaf yn dilyn canllawiau dogfen *Cod ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol*, Cyngor y Gweithlu Addysg (2023). Rhaid i athrawon cofrestredig seilio eu perthynas â disgyblion ar ymddiriedaeth a pharch (t.1).

Fel astudiaeth achos i ysgol benodol, mae’n hanfodol i ddynodi bo’r ymchwil yn gytûn a chanllawiau BERA (2018). Byddaf yn sicrhau cydsyniad disgyblion i fod yn rhan o’r ymchwil (trwy ddosbarthu

taflenni sy'n hysbysu gwybodaeth yr holl ymchwil yn glir i ddisgyblion a'u rhieni); ac yn casglu caniatâd o'u rheini/gwarchodwyr (fel unigolion dan 18 oed) (t.9).

Mae gan gyfranwyr (disgyblion, staff a'r ysgol a gyfrannwyd) yr hawl i breifatrwydd ac anhysbysrwydd trwy gydol yr ymchwil, ac yr hawl i dynnu ôl wybodaeth pryd y dymunwn. Bydd yr ymchwil yn dileu enwau pawb a gymerodd rhan yn y gwaith – yn defnyddio llythrennau (e.e. 'disgybl A') i drafod unigolion penodol. Yn dilyn canllawiau GDPR, deddf y *Data Protection Act* (Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 2018) byddaf yn storio data crai yn ofalus, ac yn dileu'r data y casglwyd unwaith mae'r ymchwil wedi gorffen (i sicrhau cyfrinachedd y cyfranwyr).

Yn dilyn canllawiau BERA (2018) byddaf yn trin cyfranwyr gyda thegwch a pharch. Fel ymchwilydd rhaid ystyried fy sefyllfaoldeb fel unigolyn o fewn y dosbarth. Fel gwryw ac unigolyn gwyn – rhaid i fi ddeall sut mae'n ethnigrwydd a'n rhyw yn cael effaith ar yr ymchwil. Rwy wedi byw bywyd gwahanol i rai o'r cyfranogwyr, ac mae'n rhaid i fi edrych ar ymchwil amrywiol felly – i geisio deall profiadau a phersbectifau cyfranwyr sy'n wahanol i fi.

Rwy hefyd wedi cael mantais trwy fod yn iaith gyntaf Cymraeg – nad ydw i wedi cael profiad y mwyafrif sy'n dod o gartrefi di-gymraeg, ac nid ydw i wedi cael anawsterau wrth ddatblygu fy sgiliau iaith Gymraeg yn yr ysgol. Byddaf yn ceisio sicrhau cynrychiolaeth pawb, ac yn hap samplu disgyblion o gefndiroedd gwahanol fel modd o geisio goresgyn unrhyw ragfarn annheg o fewn canfyddiadau'r ymchwil.

Dulliau ymchwil

Prif ddiben yr ymchwil yw ceisio profi'r theori bod rhannu MPLI i gyfarwyddiadau mwy systematig a hydrin yn helpu disgyblion i ddeall gofynion ac i wthio'i chyrhaeddiad academiaidd. Byddaf yn defnyddio canfyddiadau'r ymchwil i lywio argymhellion i ymarferwyr, er mwyn ceisio creu

gwelliannau i ymarfer y dyfodol – yn dilyn egwyddorion canllawiau'r *Safonau Proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth* (Llywodraeth Cymru, 2019).

Bydd yr ymchwili yn cael ei gynnal yn ystod, ac wedi terfyn gwrs dosbarth – i greu 'ffeil o ffaith' am Batagonia. Rhannir y dosbarth i ddau grŵp penodol lle ceir un grŵp MPLI 1 (gyda nod y wrs yn unig) a'r grŵp arall yn cael MPLI 2 (gyda rhestr o ddeilliannau dysgu ac amcanion penodol strwythuredig). Er mwyn ceisio ateb y cwestiwn ymchwili, mae angen casglu data am ganfyddiadau'r ddau grŵp o ddysgwyr Blwyddyn 5 a 6 er mwyn ceisio cymharu data, ac ennyn os yw MPLI 2 gydag effaith cadarnhaol ar gyrhaeddiad dysgwyr.

Bydd yr ymchwili yn defnyddio dulliau cymysg i gasglu'r data. Fel dywed Bashir, Syed & Qureshi (2017), dros y blynyddoedd diwethaf mae methodoleg dulliau cymysg wedi dod i'r ffrwd yng nghywaith ymchwili academaidd gan ei bod yn mynd ar afael ar ymateb i nifer o'r dadleuon critigol o amgylch casglu data meintiol neu ansoddol yn unig (t.32).

Fel dywed Rovai, Baker & Ponton (2014) mae ymgymryd mewn dull ymchwili i gasglu data meintiol yn awgrymu bod atebion gwrthrychol i'r cwestiwn ymchwili. Mae data caled, a ffigurau cadarn yn bodoli tu hwnt i arsylwadau neu farn ymchwilydd. Gellir darganfod atebion trwy ddadansoddi'r ffigurau neu ddata cadarn, sy'n helpu'r ymchwili i ddod i gasgliad teg (t.4). Ond fel dadleua Blaikie (2010) mae ymchwili o'r fath yn gallu cyffredinoli canfyddiadau (t.215). Er bod hyn yn ddefnyddiol i greu casgliadau eang, ac yn helpu o fewn rhai mathau o ymchwiliadau. Mae ymchwili addysgol yn gofyn i edrych ar ymddygiad unigolion a dysgwyr penodol. Fel dywed Creswell (2014) mae ymchwili ansoddol yn ceisio mynd ar afael ar gyffredinoli, trwy roi'r pwyslais ar astudio persbectif ac ymatebion unigolion neu grwpiau penodol. Mae'n ffocysu ar ennyn data a chreu casgliadau trwy gymhwyso profiadau penodol unigolion mewn cyd-destunau goddrychol (t.4). Yr ofyn am farn oddrychol yw'r hyn sy'n peri problemau i'r math yma o ymchwili.

Dadleua Kaplan & Duchon (1988) felly, y na ellir datgan yn amlwg bod un dull o gasglu data yn well na'r llall – gan fod lle i ymarfer dulliau ymchwili gwahanol (t.571). Mae cynnal dull ymchwili cymysg yn

fodd o driongli data ac i gymryd y gorau o'r ddau fath o fethodoleg, i roi ystyriaeth fwy cyfannol i gasgliadau'r ymchwil yma, ac i gynhyrchu canfyddiadau mwy teg.

Arsylwad Strwythuredig

Yn gyntaf, bydd yr ymchwil yn cynnal arsylwad strwythuredig fel dull o gasglu data ansoddol. Bydd yr ymchwil yn rhannu'r cyfranogwyr (disgyblion Blwyddyn 5 a 6) i ddau grŵp gwahanol (Gweler Atodiad 3) –

- Grŵp 1: MPLI 1 (nod y wers yn unig).
- Grŵp 2: MPLI 2 (gofynion systematig).

Fel ysgrifenna Porta (2008) mae arsylwi dau grŵp gwahanol yn helpu'r broses o ddehongli data trwy gynnig data cymharol i lywio canfyddiadau ymchwil. Ond rhybuddia Cochran (2015) bo'r broses o gynnal arsylwad yn medru bod yn aflwyddiannus heb benodi ardal bendant i ffocysu arno (t.127). I fynd ar afael ar hyn, ddefnyddiwyd graddfa Leuven (dyfynnwyd yn Barber, 2013) i benodi ffocws i'r arsylwad. Mae graddfa Leuven yn system 5 pwynt, er mwyn sgorio lles/ymgysylltiad plant gyda thasg benodol. Defnyddir graddfa Leuven wrth arsylwi yn yr ymchwil yma, i gofnodi ymgysylltiad dysgwyr gyda'i MPLI.

Byddaf yn dewis un disgybl gallu uwch, canolig, ac is (o'r ddau grŵp) i arsylwi a sgorio, er mwyn rhoi cymhariaeth deg o drawstoriad academiaidd y dosbarth. Trwy gasglu sgoriau graddfa Leuven, casglwyd ffigurau meintiol er mwyn cymharu data yn hawdd rhwng y ddau grŵp. Ond fel dywed Højholt & Kusholt (2014) un o'r rhwystradau mwyaf i'r math yma o gasglu data, yw'r gofyn am farn oddrychol arsylwyr wrth sgorio cyfranogwyr. Mae lens goddrychol anochel yr arsylwr yn medru tynnu ar ddibynadwyedd y canlyniadau (t.316), a dylid cadw hyn mewn golwg wrth ddadansoddi'r canlyniadau.

Fel dadleua Adair (1984) rhaid hefyd ystyried sut mae effaith Hawthorne yn effeithio ar ganfyddiadau'r ymchwil. Mae theori Hawthorne yn tybio bod cyfranogwyr ymchwil yn ymddwyn yn wahanol pryd y maent yn cael ei arsylwi. Mae bodau dynol yn dueddol o newid ei ymddygiad i ffitio i'r hyn y maent yn meddwl bo'r arsylwr eisiau ei gweld. Gan fod y disgyblion yn ymwybodol bo'r ymchwil yn seiliedig ar ei ddefnydd o MPLI – gellir tybio efallai y bydd rhai disgyblion yn newid ei ymddygiad i ymgysylltu'n fwy amlwg gyda'r MPLI – i ddilyn disgwyliadau'r athro/arsylwr.

Holiadur Disgyblion

I ategu i ddata'r arsylwadau, casglir barn disgyblion trwy ddefnydd holiadur, i ennyn ei deimladau am y ddau MPLI gwahanol. Trwy gasglu atebion yr holiadur yn electronig, rhannir data meintiol er mwyn cynnal cymhariaeth gadarn rhwng y ddau grŵp.

Fel ysgrifenna Codó (2008) mae holiaduron yn ddefnyddiol gan ei bod yn cynnig cyfleoedd i ddeall safbwyntiau eraill ac i weld barn cyfranogwyr (t.158). Yn enwedig yn y system addysg gyfoes lle mae theorïau 'dysgwr canolog' megis gwaith Piaget (dyfynnwyd yn Tzuo, 2007) yn boblogaidd. Mae cynnig holiadur i ddysgwyr, yn sicrhau bod llais y disgybl yn rhan o gynllunio'r argymhellion i wella ymarfer y dyfodol. Fel dywed Codó (2008) mae holiaduron yn helpu ymchwilydd i weld patrymau a barn trwy lens gwahanol, tu hwnt i safbwynt yr ymchwilydd ei hun.

Serch hyn, rhaid cofio i ystyried effaith Hawthorne (fel dyfynnwyd yn Adair, 1984) wrth gynnal holiaduron yn gyd-destun y dosbarth. Mae'n bosib y gallai disgyblion ymateb i'r holiadur mewn ffordd sy'n cyd-fynd gyda beth maent yn meddwl mai'r athro eisiau i glywed. Rhaid sicrhau bod yr ymchwilydd ddim yn rhoi geiriau mewn i gegau unigolion neu'n rhoi tuedd iddynt. Gallai hyn effeithio'n negyddol ar ddibynadwyedd a dilysrwydd y canlyniadau. Bydd yr ymchwilydd angen esbonio i'r dysgwyr bo'i chyfranogiadau yn gwbl anhysbys, i geisio goresgyn hyn.

Cyfweliad gyda'r athrawes dosbarth

Bydd yr ymchwil hefyd yn cynnal cyfweliad gyda'r athrawes dosbarth i gasglu ei barn ar effaith y MPLI ar y ddau grŵp o ddisgyblion. Bydd yr ymchwil yn dadansoddi a chymharu gwaith disgyblion trwy gategoriâu gallu - is (1); canolig (2) ac uwch (3) – er mwyn cynnal cymhariaeth sy'n ystyried trawstoriad gallu'r dosbarth cyfan.

Gan fod yr athrawes yn deall cyrhaeddiad arferol y disgyblion, gellir cynnig mewnwleidiad mwy dwfn a manwl o effaith posib y MPLI ar gyrhaeddiad disgyblion penodol. Fel ysgrifenna Fennema & Franke (1992) mae athro llwyddiannus yn deall ei ddisgyblion ar lefel personol, emosiynol ac yn academiaidd. Mae cynnal cyfweliad gyda'r athrawes dosbarth yn gobeithio cymryd mantais o'r mewnwleidiad yma i gynnig sylwadau mwy penodol am y cyfranogwyr.

Serch hyn, rhaid cofio efallai bod tuedd athro yn broblem. Mae gwaith Childs & Wooten (2023) yn dynodi bod gogwydd anymwybodol gan athrawon – sy'n medru effeithiol ar ei ymateb i ddigwyddiadau a dysgwyr gwahanol (yn sgil hil, gallu, dosbarth cymdeithasol a.y.b.). Rhaid cadw'r cysyniad yma mewn golwg wrth gynllunio casgliadau'r ymchwil. Na ellir defnyddio barn un unigolyn i lywio cyffredinolïadau eang.

Dadansoddi'r Canlyniadau

Bydd y rhan yma o'r ymchwil yn dadansoddi'r data y casglwyd o'r tri dull ymchwil gwahanol.

Fel casgliad eang o'r holl ddata y casglwyd – casglir bod canfyddiadau'r ymchwil yn amhendant.

Mewn mannau, mae'r data yn cynnig ychydig o dystiolaeth i gefnogi bod MPLI mwy systematig (grŵp 2) wedi cael rhywfaint o effaith bositif ar gyflawniad gwaith a chyrhaeddiad disgyblion penodol – ond nid yw'r canfyddiadau yma'n amlwg. Argymhellaf i ail-wneud yr ymchwil mewn cydestun gwahanol, gyda sampl mwy eang o gyfranogwyr er mwyn ceisio cael canlyniadau mwy dibynadwy a dilys.

Arsylwad Strwythuredig

Fel rhan o'r broses arsylwi, defnyddiwyd graddfa Leuven (dyfynnwyd yn Barber, 2013) i roi ffocws i'r broses arsylwi. Graddiwyd ymgysylltiad disgyblion gyda'i MPLI o 1 (dim ymgysylltiad) i 5 (ymgysylltiad llawn).

Fel gweler yn y tablau isod, ni weler gwahaniaeth rhwng ymgysylltiad disgyblion gallu uwch i'r MPLI, o'r ddau grŵp. Ond gweler rhywfaint o ymgysylltiad cynyddol i'r MPLI mwy systematig, gyda disgyblion gallu is a chanolig. I ail-afael yn y llenyddiaeth, dynoda Lewis (2003) bod problemau amlwg yn sgil safonau darllen a deall y Gymraeg yn ysgolion prif ffrwd Cymraeg – yn golygu bod nifer o ddisgyblion yn cael problemau yn deall gofynion gwersi. Gellir dadlau efallai bo'r disgyblion gallu is a chanolig (sydd â sgiliau Cymraeg gwannach) angen mwy o gymorth neu gyfarwyddyd systematig i gyflawni tasgau – sy'n esbonio'r ymgysylltiad cynyddol i'r MPLI mwy systematig.

Grŵp 1 (MPLI 1 – nod y wers yn unig).

	1	2	3	4	5
Disgybl A (GI)		✓			
Disgybl B (GC)	✓				
Disgybl C (GU)		✓			

Grŵp 2 (MPLI 2 – mwy systematig).

	1	2	3	4	5
Disgybl D (GI)				✓	
Disgybl E (GC)			✓		
Disgybl F (GU)		✓			

Yn amlwg, roedd cyfyngiadau i'r dull yma o arsylwi. Roedd hi'n anodd arsylwi chwe disgybl ar yr un pryd, yn golygu ei bod yn bosib fy mod wedi colli rhywbeth. Rhaid hysbysu bo'r sgoriau ond yn gipolwg o'r hyn y gwelais o'r 6 disgybl, a byddai recordio'r arsylwad trwy fideo (i gael ail-edrych ar y 6 disgybl yn fwy manwl) wedi gwneud y broses yma yn un fwy dibynadwy.

Gyda sampl mor fach, rhaid hefyd cadw mewn ystyriaeth y goblygiadau i'r casgliad. Er mwyn cyffredinol i'r canfyddiadau, byddai angen ail-wneud yr ymchwil gyda sampl mwy o faint er mwyn cynnig canfyddiadau cadarn sy'n adlewyrchiad teg o ddisgyblion yn fwy cyffredinol. Mae'r canfyddiadau, er yn rhoi rhywfaint o fewnwelediad i wahaniaethau mewn ymatebion disgyblion o alluoedd gwahanol i'r MPLI mwy systematig, ddim yn gwbl ddbynadwy ar hyn o bryd.

Holiadur

Ar ddiwedd y wers dan sylw, gofynnir disgyblion i lenwi holiadur ar lein, i gasglu eu teimladau a'u barn am y MPLI (gweler y canlyniadau yn Atodiad 1). Sgoriwyd ymatebion disgyblion o 1-5 er mwyn cael cymhariaeth feintiol o'r ddau grŵp. Rhoddid cyfle i ddisgyblion i fynegi barn agored ar ddiwedd yr holiadur i geisio ennyn rhywfaint o gyfiawnhad ansoddol i gyfoethogi'r data meintiol.

Ceir 11 o ymatebion o grŵp 1, a 13 o ymatebion o grŵp 2. Roedd y grwpiau yn gymysg o ran gallu, a rhyw.

I grynhoi'r prif ganfyddiadau:

- (Rhwng 1-5) Faint wyt ti wedi mwynhau'r wers? (Sgôr 1 – Ddim o gwbl; 2 – Heb fwynhau; 3 – Gwers foddhaol; 4 – Wedi mwynhau; 5 – Wrth fy modd).
 - Grŵp 1 – Sgôr cyfartalog o 4.
 - Grŵp 2 – Sgôr cyfartalog o 3.7.
- (Rhwng 1-5) Faint wyt ti wedi deall y wers? (Sgôr 1 – Ddim o gwbl; 2 – Heb ddeall y mwyafrif; 3 – Deall ychydig; 4 – Deall y mwyafrif; 5 – Deall popeth).

- Grŵp 1 – Sgôr cyfartalog o 4.
- Grŵp 2 – Sgôr cyfartalog o 4.1.
- (Rhng 1-5) Faint oedd y MPLI wedi helpu chi wrth wneud y ffeil o ffaith? (Sgôr 1 – Ddim o gwbl; 2 – Ychydig; 3 – Wedi helpu; 4 – Wedi helpu llawer).
 - Grŵp 1 – Sgôr cyfartalog o 2.6.
 - Grŵp 2 – Sgôr cyfartalog o 2.6.

Yn sgil mwynhad disgyblion, gweler ychydig o wahaniaeth yn foddhad disgyblion rhng y ddau grŵp. Mae'r canlyniadau efallai'n awgrymu bod gwell gan ddisgyblion llai o strwythur - fel yn MPLI Grŵp 1. Ond nad oes llawer o wahaniaeth. Mae'r canlyniadau cyfartalog yn eithaf amhendant.

Ni cheir gwahaniaeth mawr rhng deallusrwydd y ddau grŵp, ac mae'r canlyniadau'n awgrymu bod disgyblion ddim yn gweld MPLI mwy systematig fel help mawr iddynt wrth gyflawni ei gwaith. Os byddir yn ail-wneud yr ymchwil – awgrymir creu grŵp ychwanegol o ddisgyblion heb MPLI o gwbl, i gael grŵp arall o ffigurau i gymharu gydag.

Ar ddiwedd yr holiadur ceir cyfle i ddisgyblion mynegi eu barn ar ffurf testun ansoddol. Allan o'r 11 ymateb yn grŵp 1, dim ond tri ymateb oedd yn negyddol. Yn golygu bod rhan fwyaf o ddisgyblion ddim yn gweld diffyg cyfarwyddiadau yn broblem iddynt wrth gyflawni'r dasg benodol.

Yn fwy diddorol, ysgrifennwyd dau ddisgybl o grŵp 2 ei bod wedi gweld y MPLI systematig yn rhwystredig. Dynoda un disgybl bo'r MPLI yn rhwystredig er ei bod 'wedi fy helpu i wybod ble i ddechrau gyda fy Ffeil o Ffaith'. Byddai cynnal cyfweiliad gyda disgyblion wedi fy helpu i ennyn fwy o fewnwelediad am yr ymatebion yma. Nid oes digon o dystiolaeth neu wybodaeth o sylwadau'r disgyblion i fedru gwneud unrhyw argymhellion cynhwysfawr. Argymhellir cynnal cyfweiliad gyda disgyblion os ail-grëir yr arbrawf yn y dyfodol.

Cyfweliad gyda'r athrawes dosbarth

Fel casgliad cychwynnol, dywed yr athrawes bod pawb ar dasg yn ystod yr arsylwad dan sylw (gweler nodiadau'r cyfweliad yn Atodiad 2). Ond gweler gwahaniaeth positif yn ymgysylltiad disgyblion grŵp 2, a oedd yn gofyn am lai o gymorth ac i'w gweld yn fwy sicr o ofynion y dasg.

Aethom ymlaen i gymharu gwaith disgyblion fesul tri grŵp gallu gwahanol – is (1), canolig (2) ac uwch (3). Nid oedd y MPLI systematig wedi gwneud gwahaniaeth amlwg yng nghyflawniad gwaith disgyblion gallu uwch. Awgryma'r athrawes bo'r disgyblion yma'n deall gofynion y dasg yn barod ac felly nid oedd y MPLI systematig o reidrwydd wedi helpu. Gellir ystyried efallai bod angen gwahaniaethu'r MPLI er mwyn sicrhau bo'r disgyblion mwy abl a thalentog yn cael ei herio gan y MPLI systematig.

Wrth gymharu gwaith disgyblion gallu canolig, gweler gwahaniaeth clir rhwng cyrhaeddiad disgyblion. Roedd ffeil-o-ffaith disgyblion grŵp 2 yn cynnwys mwy o wybodaeth, ac yn bendant o safon uwch na'r disgyblion heb gyfarwyddiadau tebyg. Awgryma'r athrawes bo'r gofynion ar MPLI grŵp 2, megis 'ysgrifennwch 5 ffaith' wedi herio a gwthio'r disgyblion yma i gyflawni mwy o waith na'r arfer.

Gyda'r disgyblion gallu is – ceir gwahaniaeth yn gyflwyniad y gwaith rhwng y ddau grŵp. Nid oedd un o'r pedwar disgybl gallu is, yn grŵp 1 o'r ymchwil wedi cyflwyno'r gwaith i *SeeSaw*; tra bod tri allan o bedwar o'r disgyblion gallu is yn grŵp 2, wedi llwyddo i gyflwyno'r gwaith. Er na ellir gwneud cymhariaeth deg o ran cyrhaeddiad gan nad oedd gwaith i gymharu gydag. Awgryma cyfraddau'r cyflwyniadau bod y disgyblion gallu is gyda'r MPLI mwy systematig, yn fwy gweithgar na grŵp 1.

Casgliadau – Adfyfyrio

I gasglu, roedd canfyddiadau ymchwil yn eithaf amhendant. Teimlaf fod angen diwygio'r dulliau ymchwil rhywfaint er mwyn sicrhau canlyniadau mwy defnyddiol. Mae'r fethodoleg yn hawdd i'w ail-

greu, ond ar hyn o bryd, mae'r dulliau yn rhannu canlyniadau amwys sydd ddim yn ddigon dwys neu gadarn i greu argymhellion o safon.

Nid oedd yr holiadur yn dangos digon o farn disgyblion i ennyn llais cadarn y disgybl. Roedd y sampl yn fach ac nid oedd digon o wybodaeth yn y data ansoddol – lle ceir disgyblion y cyfle i fynegi barn – i wneud canfyddiadau dwys. Y tro nesaf argymhellwyd cynnal cyfweiliad gyda disgyblion i sicrhau bo'i llais yn ddigon clir a'i syniadau yn cael ei mynegi mewn ffordd y gellir eu dadansoddi yn well. Er enghraifft, darganfyddir o'r holiadur bod rhai disgyblion yn rhwystredig gyda'r MPLI mwy systematig, ond nid oedd cyfle i'r disgyblion yma cael esbonio ac egluro pam eu bod yn teimlo fel hyn.

Yn debyg, nid oedd yr arsylwad yn ddigon eang neu ddibynadwy i gymryd llawer ohono. Gweler rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod MPLI mwy cadarn yn codi ymgysylltiad disgyblion gallu is a chanolig, ond mae angen mwy o ymchwil i'r ardal yma. Ni ellir cyffredinolli casgliad mawr, o'r un arsylwad yma, ond gellir gweld bod patrwm posib wedi ymgodi sy'n gofyn am fwy o ymchwil.

Yn sgil y cyfweiliad gyda'r athrawes dosbarth a chymhariaeth o waith disgyblion, ceir fwy o fewnwelediad i effaith y MPLI. Gweler bod gwaith disgyblion gallu uwch heb gael ei effeithio, gan fod y MPLI yn rhy syml neu ddim yn ei gwthio ymhellach. Mae MPLI mwy systematig i weld yn helpu disgyblion gallu canolig, gan ei bod yn deall y gofynion i lwyddo (fel atgyfnerthiad i syniadau Crichton & McDaid, 2016). Tra bod angen mwy o ymchwil i effaith y MPLI ar ddisgyblion gallu is – er gellir dadlau bo'r gwahaniaeth yn cyflwyno'r gwaith yn dangos bo'r MPLI mwy systematig efallai'n effeithio ar weithgarwch y disgyblion o'r grŵp academaidd yma.

Argymhellion

Hoffwn rhannu dau prif argymhelliad yn ddeilio o'r ymchwil yma:

(1) Mae angen parhau i dreiali MPLI mwy systematig gyda disgyblion gallu is a chanolig.

Mae canfyddiadau'r ymchwil er yn amhendant, yn awgrymu efallai bod MPLI mwy systematig yn helpu disgyblion gallu canolig ac is, i fedru deall gofynion gwaith dosbarth ac i fod yn fwy gweithgar.

(2) I ddatblygu gwahaniaethu o fewn MPLI – i herio disgyblion gallu uwch.

Mae canfyddiadau'r ymchwil yn awgrymu bod newid MPLI y dosbarth, heb effaith ar gyrhaeddiad disgyblion mwy abl a thalentog. Hoffwn fynd ar afael ar hyn trwy wahaniaethu o fewn strategaethau MPLI, i herio'r disgyblion yma, ac i weld os mae cynnig her ychwanegol ar y MPLI gydag effaith ar gyrhaeddiad y grŵp yma o ddisgyblion.

Yn bendant mae rhywfaint o effaith bositif o ddefnyddio MPLI mwy systematig gyda disgyblion penodol. Ond mae angen mireinio'r her, y cyflwyniad, a'r dulliau o asesu ei effaith er mwyn datblygu ymarfer i'r safon gorau, ac i wella fy ymarfer fel hyfforddwr. Yn dilyn model yr athro trawsnewidiol mae angen parhau i newid ymarfer ac i ddatblygu'n bersonol.

Fel rhan o'm mhrofiadau PAP 2 felly, byddaf yn parhau i ymgymryd yn datblygu'r gwaith ymchwil yma, er mwyn sicrhau'r ymarfer gorau posib yn fy nefnydd o'r dull yma o AagD.

CYFRIF EIRIAU: 4,895

RHESTR GYFERIO

- Adair, J. G. (1984). 'The Hawthorne effect: A reconsideration of the methodological artifact', *Journal of Applied Psychology*, 69 (2), t.334–345. DOI: 10.1037/0021-9010.69.2.334
- Ahmed, M. (2018) 'A critical reflection on the role of success criteria in peer assessment to facilitate pupil learning and performance,' *The STeP Journal*, 5(1), t.20-29. [Rhynggrwyd] Ar gael: <https://ojs.cumbria.ac.uk/index.php/step/article/view/491> (Cyrchwyd: 23ain o Fawrth, 2024).
- Barber, J. (2013). 'Leuven wellbeing scales', *Early Years Educator*, 15(6), t.32-34. DOI: 10.12968/eyed.2013.15.6.32
- Bashir, S., Syed, S. & Qureshi, J.A. (2017). 'Philosophical and methodological aspects of a mixed-methods research: A review of the academic literature', *JISR management and social sciences & economics*, 15(1), t.31-50. DOI: 10.31384/jisrmsse/2017.15.1.3
- Black, P., Harrison, C., Lee, C., Marshall, B. & Wiliam, D. (2004). 'Working inside the black box: Assessment for learning in the classroom', *Phi delta kappan*, 86(1), t.8-21. DOI: 10.1177/0031721704086001
- Blaikie, N. (2010). *Designing Social Research*. Cambridge: Polity Press.
- British Education Research Association [BERA]. (2018). *Ethical Guidelines for Education Research (Fourth Edition)*. London. [Rhynggrwyd] Ar gael: <https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018> (Cyrchwyd: 12fed Chwefror, 2024).
- Childs, T. & Wooten, N. (2023). 'Teacher bias matters: an integrative review of correlates, mechanisms, and consequences', *Race Ethnicity and Education*, 26(3), t.368-397. DOI: 10.1080/13613324.2022.2122425
- Cochran, W. (2015). *Observational Studies*, 1(1), t.126-136. DOI: 10.1353/obs.2015.0010

- Codó, E. (2008). 'Interviews and questionnaires', *The Blackwell guide to research methods in bilingualism and multilingualism*, t.158-176. DOI: 10.1002/9781444301120
- Creswell, J. W. (2014). *Research Design: Qualitative, Quantitative and Mixed Methods Approaches* (4th ed.). London: Sage Publications Ltd.
- Crichton, H. & McDaid, A. (2016). 'Learning intentions and success criteria: learners' and teachers' views', *The Curriculum Journal*, 27(2), t.190-203. DOI: 10.1080/09585176.2015.1103278
- Cyngor y Gweithlu Addysg (2023). *Cod ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer cofrestreion*. [Rhynggrwyd] Ar gael: <https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/priodoldeb-i-ymarfer/cod-ymddygiad-ac-ymarfer-proffesiynol-cga/y-cod> (Cyrchwyd: 6ed o Fawrth, 2024).
- Della Porta, D. (2008). '11 Comparative analysis: case-oriented versus variable-oriented research', *Approaches and methodologies in the social sciences*. [Rhynggrwyd] Ar gael: https://www.biknotes.com/files/ugd/b8b6dc_ad36ee97b50949f1a766b501206e0bab.pdf#page=216 (Cyrchwyd: 23ain o Fawrth).
- Diefenbach, T. (2009). 'Are case studies more than sophisticated storytelling?: Methodological problems of qualitative empirical research mainly based on semi-structured interviews', *Quality & Quantity*, 43, t.875-894. DOI: 10.1007/s11135-008-9164-0
- Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus*. [Rhynggrwyd] Ar gael: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf> (Cyrchwyd: 10fed Chwefror, 2024).
- Estyn. (2016). *Adroddiad ar Ysgol A*. [Rhynggrwyd] (Cyrchwyd: 12fed Chwefror, 2024).
- Fennema, E. & Franke, M. (1992). 'Teachers' knowledge and its impact', In: Grouws, D. (Ed). *Handbook of research on mathematics teaching and learning: A project of the National Council of Teachers of Mathematics*, North Carolina: IAP, t.147-164.

- Hamilton, L. (2011). 'Case studies in educational research', *British Educational Research Association on-line resource*. [Rhynggrwyd] Ar gael: <https://www.bera.ac.uk/publication/case-studies-in-educational-research> (Cyrchwyd: 23ain o Fawrth, 2024).
- Højholt, C. & Kousholt, D. (2014). 'Participant observations of children's communities—Exploring subjective aspects of social practice', *Qualitative Research in Psychology*, 11(3), t.316-334. DOI: 10.1080/14780887.2014.908989
- Joughin, G. (2010). 'The hidden curriculum revisited: a critical review of research into the influence of summative assessment on learning', *Assessment & Evaluation in Higher Education*, 35(3), t.335-345. DOI: 10.1080/02602930903221493
- Kaplan, B. & Duchon, D. (1988). 'Combining qualitative and quantitative methods in information systems research: a case study', *MIS quarterly*, t.571-586. DOI: 10.2307/249133
- Kibble, J.D. (2017). 'Best practices in summative assessment', *Advances in physiology education*, 41(1), t.110-119. DOI: 10.1152/advan.00116.2016
- Lewis, W. (2003). 'Addysg gynradd Gymraeg: Trochi a chyfoethogi disgyblion', *Wales Journal of Education*, 12(2), t.49-64. [Rhynggrwyd] Ar gael: <https://journal.uwp.co.uk/wje/article/id/250/> (Cyrchwyd: 23ain o Fawrth, 2024).
- Llywodraeth Cymru. (2019). *Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth*. [Rhynggrwyd] Ar gael: <https://hwb.gov.wales/api/storage/ae783486-0851-4ec6-9e73-2e2b99515cf5/safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-ac-arweinyddiaeth-pdf-rhyngweithiol-ar-gyfer-cyfrifiaduron-personol.pdf> (Cyrchwyd: 5ed Mawrth, 2024).
- Llywodraeth Cymru (2024a) Cwricwlwm i Gymru. [Rhynggrwyd] Ar gael: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru> (Cyrchwyd: 12fed Chwefror, 2024).
- Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2018). *Data Protection Act*. [Rhynggrwyd] Ar gael: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/12/contents/enacted> (Cyrchwyd: 6ed o Fawrth, 2024).

- Madaus, G., Russell, M. & Higgins, J. (2009). *The paradoxes of high stakes testing*. Charlotte, NC: Information Age.
- Race, P. & Brown, S. (1996). September. Changing assessment to improve learning.
In *Summary of keynote session at the 1st Northumbria Assessment Conference, 6 September*.
- Rovai, A., Baker, J., & Ponton, M. (2014). *Social Science Research Design and Statistics*.
Chesapeake, VA: Watertree Press LLC.
- Schutt, R. (2006). *Investigating the social world: The process and practice of research*.
London: Sage Publications.
- Slade, M., Burnham, T., Catalana, S. & Waters, T. (2019). 'The Impact of Reflective Practice on Teacher Candidates' Learning', *International Journal for the Scholarship of Teaching and Learning*, 13(2), t.15. DOI: 10.20429/ijstol.2019.130215
- Slavich, G. & Zimbardo, P. (2012). 'Transformational teaching: Theoretical underpinnings, basic principles, and core methods', *Educational psychology review*, 24, t.569-608. DOI: 10.1007/s10648-012-9199-6
- Tzuo, P. (2007). 'The tension between teacher control and children's freedom in a child-centered classroom: Resolving the practical dilemma through a closer look at the related theories', *Early Childhood Education Journal*, 35, t.33-39. DOI: 10.1007/s10643-007-0166-7
- Willis, J., Arnold, J. & DeLuca, C. (2023) 'Accessibility in assessment for learning: sharing criteria for success', In: *Frontiers in Education*, Vol. 8. t.1-15. DOI: 10.3389/feduc.2023.1170454
- Wiliam, D. (2011). 'What is assessment for learning?', *Studies in educational evaluation*, 37(1), t.3-14. DOI: 1016/j.stueduc.2011.03.001

Atodiadau

Atodiad 1 (Ymatebion i'r holiadur):

Pa grŵp oeddet ti mewn?	(Rhwyng 1-5) Faint wyt ti wedi mwynhau'r wers?	(Rhwyng 1-5) Faint wyt ti wedi deall y wers?	(Rhwyng 1-4) Faint oedd y Meini Prawf Llwyddiant wedi helpu chi wrth wneud y ffeil o ffaith?	Beth yw eich barn am y Meini Prawf Llwyddiant? (Positif neu Negatif)
Grŵp 1 / Meini Prawf Llwyddiant 1	4 - Wedi mwynhau	5 - Deall popeth	2 - Ychydig	Oherwydd roedd i yn grŵp 1 , doedd yr meini prawf llwyddiant heb gwneud lot o wahaniaeth.
Grŵp 1 / Meini Prawf Llwyddiant 1	4 - Wedi mwynhau	5 - Deall popeth	3 - Wedi helpu	Positif
Grŵp 1 / Meini Prawf Llwyddiant 1	5 - Wrth fy modd	4 - Deall y mwyafrif	2 - Ychydig	positif
Grŵp 1 / Meini Prawf	4 - Wedi mwynhau	5 - Deall popeth	3 - Wedi helpu	gwnued eto

Llwyddiant 1				
Grŵp 1 / Meini Prawf Llwyddiant 1	5 - Wrth fy modd	5 - Deall popeth	4 - Wedi helpu llawer	roeddwn i yn ddwyly ar y peth.
Grŵp 1 / Meini Prawf Llwyddiant 1	4 - Wedi mwynhau	5 - Deall popeth	2 - Ychydig	Doedd y meni praw ddim wedi helpu llawer oherwydd doedd dim cyferrwyddiadau roedd ddim ond y nod y task.
Grŵp 1 / Meini Prawf Llwyddiant 1	2 - Heb mwynhau	2 - Heb deall y mwyafrif	1 - Ddim o gwbwl	na
Grŵp 1 / Meini Prawf Llwyddiant 1	4 - Wedi mwynhau	4 - Deall y mwyafrif	3 - Wedi helpu	dwi yn hoffi y meni prawf llwyddiant 😊
Grŵp 1 / Meini Prawf	4 - Wedi mwynhau	5 - Deall popeth	3 - Wedi helpu	positif

Llwyddiant 1				
Grŵp 1 / Meini Prawf Llwyddiant 1	5 - Wrth fy modd	3 - Deall ychydig	4 - Wedi helpu llawer	mae yn helpu llawer y Meini Prawf Llwyddiant.
Grŵp 1 / Meini Prawf Llwyddiant 1	4 - Wedi mwynhau	4 - Deall y mwyafrif	2 - Ychydig	dwi wedi ddiall y gwaith
	Sgôr cyfartalog: 4	Sgôr cyfartalog: 4	Sgôr cyfartalog: 2.6	
Grŵp 2 / Meini Prawf Llwyddiant 2	4 - Wedi mwynhau	4 - Deall y mwyafrif	2 - Ychydig	dda ond roedd e yn Rhwystredig
Grŵp 2 / Meini Prawf Llwyddiant 2	4 - Wedi mwynhau	4 - Deall y mwyafrif	3 - Wedi helpu	Roedd i yn hoffi gwibod beth dwi'n naid.

Grŵp 2 / Meini Prawf Llwyddiant 2	4 - Wedi mwynhau	4 - Deall y mwyafrif	3 - Wedi helpu	roedd y meini prawf yn dda
Grŵp 2 / Meini Prawf Llwyddiant 2	4 - Wedi mwynhau	5 - Deall popeth	3 - Wedi helpu	posatif
Grŵp 2 / Meini Prawf Llwyddiant 2	3 - Gwers boddhaol	2 - Heb deall y mwyafrif	2 - Ychydig	
Grŵp 2 / Meini Prawf Llwyddiant 2	4 - Wedi mwynhau	4 - Deall y mwyafrif	3 - Wedi helpu	Meddwl fod yr meini praf yn gwych
Grŵp 2 / Meini Prawf Llwyddiant 2	4 - Wedi mwynhau	5 - Deall popeth	2 - Ychydig	Rudw i'n hoffi e

Grŵp 2 / Meini Prawf Llwyddiant 2	3 - Gwers boddhaol	4 - Deall y mwyafrif	2 - Ychydig	Roeddwn i'n meddwl mae'rmeini prawf llwyddiant yn tipin back yn helpu ond rydw i ddim yn hoffi y grwpiau
Grŵp 2 / Meini Prawf Llwyddiant 2	4 - Wedi mwynhau	4 - Deall y mwyafrif	3 - Wedi helpu	Roedd y meini prawf wedi helpu a roeddwn i wedi tickio ddau peth.
Grŵp 2 / Meini Prawf Llwyddiant 2	4 - Wedi mwynhau	4 - Deall y mwyafrif	2 - Ychydig	Roedd y Meini Prawf Llwyddiant yn tipin yn rwystredig ond roedd wedi fy helpu i gwibod ble i dechrau gyda fy Ffeil o Ffaith
Grŵp 2 / Meini Prawf Llwyddiant 2	4 - Wedi mwynhau	3 - Deall ychydig	3 - Wedi helpu	ddi wedi meddwl maen dda
Grŵp 2 / Meini Prawf Llwyddiant 2	5 - Wrth fy modd	5 - Deall popeth	3 - Wedi helpu	Dwi'n meddwl ei bod y meini prawf llyddiant yn syniad arbenig ac yn ei gofyn pethau efallai doeddent ni ddim yn wybod.

Grŵp 2 / Meini Prawf Llwyddiant 2	5 - Wrth fy modd	5 - Deall popeth	3 - Wedi helpu	Rydw i'n caru YR MPLL achos mae'n helpu ni cadw trac o Beth ydyn ni yn wneud, ac mae'n stopio ni rhoi EIN dwylo lan.
	Sgôr cyfartalog: 3.7	Sgôr cyfartalog: 4.1	Sgôr cyfartalog: 2.6	

Atodiad 2 (Nodiadau'r Cyfweliad gyda'r Athrawes Dosbarth):

Cyfweliad gyda'r athrawes dosbarth.

Beth yw eich syniadau chi am sut mae'r Meini Prawf Llwyddiant mwy systematig wedi effeithio ar weithgarwch ac ymddygiad eich disgyblon yn y dosbarth?

- Part or long (apple, dan MPH)
- Hai ya gila an help (MPH - grup 2) - mau ang =
- gigitan dan ya gigitan bod dan - gigitan an
- anangit gigitan gigitan. Part gigitan grup 2 ;
- and ya dan gigitan gigitan gigitan

A ydych yn gweld unrhyw wahaniaethau mewn perfformiad/cyrrhaeddiad rhwng y ddau grŵp o ddisgyblion, ac os felly, pa fath o wahaniaethau ydych chi'n eu gweld...

... yn nisgyblion MaTh? *dim ond gallu uch...*

- Ethaf kebaya - ya barod ya dahl y gfyensi or
nib or angn MPIL anyt.

... yn nisgyblion gallu canolig?

- ... yn nisgbylion gallu canolog?
- Mwy o wybodaeth ydychydig gellir cael, mae mwy o gyfarwyddwriaeth yn gellir, gofio yma i gynhyrchu mwy.
- (moll 2)

... yn nisgyblion GI neu ADY?

- grip van het y MPH, het volgende wordt
 Cei dei wordt y 21 x 4 dus 84 GI/ADY
 y grip 1 - cei 3/4 = 84 dus 84 GI/ADY grip 2

Ydych chi'n gweld unrhyw newidiadau mewn agweddau emosiynol, cymdeithasol neu feddyliol o fewn y ddau grŵp o ddisgyblion, ac os felly, sut mae'r meini prawf wedi cyfrannu at hynny?

Ben byd mawr i nodi yma.

Sut mae'r canlyniadau o'r ymchwili hon yn mynd i effeithio ar eich ffyrdd o gynllunio a chyflwyno gwaith dosbarth yn y dyfodol?


- Stamp dollar up and down; average depreciation is approx 2% and
MPN gets effect on equilibrium growth (in equilibrium)
not yes, otherwise we would depreciate for MPN
may systematic

Unrhyw sylwadau ychwanegol?

- Wahl geschlecht $\frac{1}{2}$ Wahl teil $\frac{1}{2}$ Wahl teil $\frac{1}{2}$ Wahl teil $\frac{1}{2}$ Wahl teil $\frac{1}{2}$

Meini Prawf Mr Lewis

Nod y wers – I greu ffeil o ffaith am Batagonia.




Meini Prawf Mr Lewis

Nod y wers – I greu ffeil o ffaith am Batagonia.

Dylech gynnwys ...

- ... o leiaf 5 ffaith ysgrifenedig am Batagonia.
- ... o leiaf 2 enghraifft o ddata (e.e. poblogaeth; maint y wlad).
- ... gwybodaeth am yr Eisteddfod ym Mhatagonia.



Atodiad 4 (Llythyr i rieni):

Dear Parents/Guardians,

I hope this letter finds you well. We are reaching out to inform you about an upcoming research project that we will be conducting in our classroom. Your child has been selected to participate, and we kindly request your permission for their involvement.

The purpose of this research project is to explore and develop success ~~criteria~~ in the classroom environment. We believe that understanding what contributes to student success can greatly enhance our teaching practices and ultimately benefit all students.

Here are some important details about the research project:

- **Nature of the Study:** The research will involve observing regular classroom lessons and collecting notes on various aspects related to success ~~criteria~~.
- **Anonymous Participation:** All contributions will be kept strictly anonymous. Your child's identity will not be disclosed in any reports or publications resulting from the research.
- **Voluntary Participation:** Participation in the research project is entirely voluntary. You have the right to withdraw your child from the study at any point without any repercussions.
- **Data Security:** We will ensure that all data collected during the research project is stored securely and treated with the utmost confidentiality. Once the project is complete, all data will be deleted in accordance with best practices.
- **Compliance:** Our research project will adhere to the guidelines set forth by the British Educational Research Association (BERA) regulations, ensuring ethical conduct throughout the study.

To provide your consent for your child to participate in this research project, please reply to this email or return the attached form to the school admin office indicating your willingness. If you have any questions or concerns regarding the research project, please do not hesitate to contact us.

Thank you for considering this request. Your support and cooperation are greatly appreciated as we endeavour to improve educational practices for the benefit of all students.

Kind regards,

Daniel Huw Lewis

PGCE ~~Primary~~ Student